


**Theatr Iolo a Transporter yn India**

**#WalesinKolkata** **#CymruynKolkata**



Theatr Iolo

Theatr Iolo

## ..yn creu theatr ar gyfer meddyliau ifanc







---

Mae Theatr Iolo yn gwmni theatr gwobrwyedig sydd wedi bod ar flaen y gad o ran creu theatr i blant a phobl ifanc ers dros 30 mlynedd. Mae babanod, plant, pobl ifanc yn eu harddegau, teuluoedd, disgyblion ac athrawon wedi mwynhau perfformiadau, gweithdai a chynyrchiadau gan y cwmni mewn pob math o leoliadau ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Rydym yn creu profiadau arbennig o'r radd flaenaf sy'n sbarduno a syfrdannu plant o bob oed a chefndir, i'w helpu i ddeall y byd o'u cwmpas a ffeindio eu lle ynddo.

Rydym yn creu a chynhyrchu'r gwaith gorau bosib i blant a phobl ifanc ar lefel genedlaethol, ledled y DU ac ar lefel rhyngwladol, gan weithio gyda'r artistiaid a'r ysgrifenwyr gorau i danio'r dychymyg ac ysgogi creadigrwydd yn Saesneg ac yn Gymraeg.

*"first class theatre… stripped bare of pretension. If only grown-up theatre were as good"* Western Mail

"*children's theatre doesn't come any better*" British Theatre Guide

Wrth ddechrau pennod newydd dan arweiniad artistig Lee Lyford fe fyddwn yn parhau i adeiladu ar ein henw da ac mae gennym lawer o gynlluniau cyffrous ar gyfer y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

…………………………………………………………………………………………………………………………………………………..

### Theatr Iolo yn Kolkata

Fe deithiodd Theatr Iolo i Kolkata i gyflwyno **Transporter**, cyd-gynhyrchiad rhwng Theatr Iolo a The Riverfront. Cafodd ei ysgrifennu a'i berfformio gan Catherine Dyson a'i gyfarwyddo gan Andy Smith

gyda thrac sain gwreiddiol gan Lewis Gibson. Roedd **Transporter** yn un o ddigwyddiadau **Cwrdd Llenyddol Iau Kolkata Tata Steel**. Cafodd ei berfformio yn y Victoria Memorial Hall yn Kolkata. Bu **Catherine Dyson** hefyd yn cynnal gweithdai ysgrifennu a pherfformio i bobl ifanc yn **ThinkArts Corner** yn ogystal â'u helpu i gyflwyno'r gwaith a grewyd ganddynt yn y Cwrdd Llenyddol.

Ar draws yr holl weithgareddau bu ymgysylltiad gydag o leiaf 589 o bobl – 200 o bobl ifanc yn y perfformiad i ysgolion, 79 yn y perfformiad cyhoeddus, 10 o gyfranogwyr yn y gweithdai a thros 300 o bobl yn y gynulleidfa ar gyfer y cyflwyniad.

Roedd **Transporter** yn rhan o raglen **Cymru yn Kolkata**, tymor o weithgareddau celfyddydol Cymreig a chydweithio artistig a gynhaliwyd yn Kolkata yn ystod Ionawr 2019 gyda chefnogaeth y Cyngor Prydeinig a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru. Fe ddeilliodd tymor **Cymru yn Kolkata** o'r perthnasau a'r rhwydweithiau a ffurfiwyd yn ystod gweithgareddau tymor #IndiaCymru, rhaglen sylweddol o gydweithio artistig rhwng Cymru ac India a gynhaliwyd yn 2017/18.

Bu'r daith hon gan Theatr Iolo i India'n bosib diolch i nawdd ThinkArts, Cwrdd Llenyddol Iau Kolkota Tata Steel, Y Cyngor Prydeinig a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru

## Perfformiadau Transporter yn Kolkata

**Theatr Iolo a The Riverfront yn cyflwyno**

# TRANSPORTER


**Ysgrifennwyd a pherfformir gan Catherine Dyson, Cyfarwyddwyd gan Andy Smith gyda thrac sain gwreiddiol gan Lewis Gibson**




Felly, shwd le sydd rownd ffordd hyn? Dyma stori nad oes neb wedi ei chlywed. Stori wir ac anhygoel am ferch o'r enw Maya; yn dair ar ddeg am byth a wastad ar grwydr. Ysgrifennwyd a pherfformir gan Catherine Dyson, ar y cyd gydag Andy Smith a Lewis Gibson. Yn ddoniol, eofn a brawychus, mae Transporter yn archwilio themâu hunaniaeth, gwahaniaeth, gwrthdaro a sut brofiad yw bod heb wreiddiau yn unman. Rydyn ni'n cwrdd â Maya mewn dinas gyffredin, ar drothwy tŷ a dechrau newydd arall. O'r man cychwyn di-nod yma caiff stori epig ei hudo o'n blaenau – ar draws degawdau a chyfandiroedd. Mae Maya, sy'n un deg tri am byth, yn gyffredin ac yn rhyfeddol; yn ferch ysgol, yn deithiwr ar draws amser, yn siaman. Mae straeon am ffraeo yn y dosbarth, hedfan dros ddiffeithdiroedd, breuddwydion am hufen iâ a chwalu gwrthryfeloedd yn cael eu cyd-blethu wrth i'r lleol a'r byd-eang, y personol a'r gwleidyddol wrthdaro.

Cafodd *Transporter* ei ddatblygu drwy 'Platfform' - rhaglen datblygu artistiaid Theatr Iolo. Sgyrsiau gyda phobl ifanc o ddinas Casnewydd yn Ne Cymru oedd man cychwyn y cyfan. Mewn blwyddyn a welodd dân Tŵr Grenfell, cynnydd digyffelyb yn niferoedd y teuluoedd sy'n ddi-gartref yn y Deyrnas Unedig a phoblogaethau gwledydd cyfan yn ffoi, fe ddaethom at ein gilydd i ystyried y cwestiynnau canlynol: Beth mae 'cartref' yn ei olygu? A oes unrhyw le ar y Ddaear yn ddiogel bellach? Sut allwn ni lywio'n ffordd trwy fyd sy'n edrych fel chwalfa ar bob llaw?

Mae **Catherine Dyson** yn ysgrifennwr ac yn berfformiwr. Mae'n Artist Cyswllt gyda RedCape Theatre ac yn ysgrifennu a pherfformio gyda nhw – yn fwyaf diweddar yn eu cynhyrchiad, '*Thunder Road'*, a berfformiwyd am y tro cyntaf yng Ngŵyl Calm Down Dear yn y Camden People's Theatre ac sy'n teithio'r DU ar hyn o bryd. Fel ysgrifennwr bu'n gyfrifol am '*Be Brave and Leave For The Unknown'* (RedCape, taith genedlaethol), '*We Don't Live Here Anymore'* (South Street Arts a Pulse), '*My Electric Soul'* (Theatr y Sherman), '*The Red Hair'* (Dirty Protest), '*If We Were Fish'*, (BBC Radio Wales), ac '*In Ruins'*, cynhyrchiad safle penodol a berfformiwyd gan grŵp o ferched ysgol yn Adfeilion Abaty Reading. Fel perfformiwr a dyfeisydd, mae wedi cydweithio gyda chwmnïau ac unigolion fel Chris Goode, Theatr Genedlaethol yr Alban ac Uninvited Guests. Ar hyn o bryd mae hi'n gweithio ar brosiect preswyl gyda National Theatre Wales ar y cyd â grŵp o bobl ifanc ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth, a drama newydd i gwmni RedCape Theatre am fenywod a phrotest drwy hanes.

**Fe gyflwynodd Catherine berfformiad o Transporter i dros 200 o bobl ifanc ac athrawon yn y Modern High School for Girls, 78 Syed Amir Ali Avenue, Kolkata 700019, ddydd Mawrth 22 Ionawr 2019.**

**Fe gyflwynodd Catherine berfformiad cyhoeddus o Transporter hefyd yng Nghwrdd Llenyddol Iau Kolkata Tata Steel, ddydd Mercher 23 Ionawr 2019 i gynulleidfa o 79 o bobl yn Western Quadrangle y Victoria Memorial Hall yng nghanol Kolkata.**

Transporter - Ffilm Ragflas: https://www.youtube.com/watch?v=xwEhdd3uQfs&t=5s

Transporter - Lluniau ar gyfer y wasg:
https://www.dropbox.com/sh/nuk5fkg66bf1yqw/AAB5udGJZR6AENRrpnFrNrN8a?dl=0

## Gweithdai a gynhaliwyd gan Catherine Dyson

**<u>O Ofod Gwag i Stori Epig – Adeiladu Perfformiad Unigol</u>**
**Beth sydd ei angen arnom i adrodd stori? Sut allwn ni greu rhywbeth o ddim byd?**

Fe gyflwynodd yr Ysgrifennwr/Perfformiwr Catherine Dyson dri gweithdy 3 awr yn ThinkArts Corner. Fe arweiniodd Catherine 10 o gyfranogwyr drwy gyfres o ymarferion ysgrifennu gan archwilio syniadau am ysgrifennu a dulliau cyflwyno, cynnwys a ffurf, yn ogystal â dulliau unigryw o greu a chyflwyno deunydd. Roedd yr ymarferion yn dangos sut y gallai profiadau'r cyfranogwyr a'u hatgofion fod yn sylfaen rymus ar gyfer drama, sut y gellir creu 'straeon yn syth' wrth ddefnyddio iaith mewn ffyrdd anisgwyl, a sut y gall ffurf a siâp yr ysgrifennu adlewyrchu'r cynnwys.

Nod y gweithdai oedd galluogi pob cyfranogwr i ysgrifennu perfformiad meicro unigol. Yna, fe ddefnyddion nhw dechnegau perfformio a dyfeisio syml i ddod â bywyd i bob darn, gan ddangos sut y gellir creu straeon di-ben-draw mewn gofod gwag wrth ddefnyddio ein lleisiau a'n cyrff yn unig.

Fe gynhaliodd Catherine rai sesiynau Skype gyda'r cyfranogwyr cyn i ni deithio i India, er mwyn iddynt ddod i adnabod ychydig ar ei gilydd a sicrhau fod pawb yn cael y gorau posib o'r gweithdai. Hefyd, fe osododd Catherine ymarfer byr i'r cyfranogwyr gan ofyn iddynt ysgrifennu rhywbeth amdanyn nhw eu hunain. Dyma a ysgrifenodd y 10 person ifanc a gymerodd ran yn y gweithdai a'r cyflwyniad terfynnol;

1. **ROSHNI -** Wna i ddim dweud nad ydw i'n sgwennu, roeddwn i'n sgwennu eitha tipyn pan roeddwn i'n blentyn, Saesneg oedd fy hoff wers ac roeddwn i'n dwlu ar y pwyslais yr oedd addysg Lloegr yn ei roi ar ysgrifennu creadigol. Doedd hyn ddim at ddant pawb, ond roeddwn i'n sicr wrth fy modd. Rwy wedi colli gafael arno'n llwyr ers symud i India. Addasu i ffordd newydd o fyw, a system addysg lle'r oedd angen cofio llawer mwy o ddata ac astudio'n fwy dwys nag yr oeddwn wedi arfer ag ef, a'r pwysau y mae plant o India (ac Asia) yn ei wynebu gan gymdeithas i sicrhau canlyniadau "da" ac ennill lle mewn prifysgol "dda" a chael swydd "dda" er mwyn cadw enw "da" eich rhieni, ac ennill cyflog "da" a thrin eich rhieni'n "dda" pan maen nhw'n hen. Mae'n gylch dieflig, a hwn yw'r gelyn yn stori llawer o fywydau.

   Yn y pendraw, yn sgil hyn, fe gollais i afael ar y rhan fwyaf o fy niddordebau. Ysgrifennu, tynnu lluniau, canu. A nawr dydw i ddim yn gallu canu o gwbl, mae'r rhan fwyaf o fy syniadau am straeon neu blotiau ffilm wedi diflannu o fy nghof, ac wrth geisio tynnu llun dim ond un llygad rwy'n gallu ei wneud yn iawn cyn gwneud cawl o'r llall. Er, yn ddiweddar rwy wedi bod yn trio ail-afael mewn rhyw fath o "fywyd go iawn". Rwy wedi dechrau cael blas ar ffilmiau cywair isel, ac rwy'n trio dysgu ieithoedd newydd a ffotograffiaeth. Ac rwy eisiau dychwelyd at ysgrifennu, fel y gall fod yn fwy na rhywbeth dros dro, a dyna pam y penderfynais i gofrestri.

2. **TANISHA -** Rwy'n ystyried fy hunan yn eithriadol o lwcus i gael cynnig cyfle mor rhyfeddol â hwn. Mae gen i chwilen go iawn am y theatr ac mae gen i lawer o barch ato fel ffurf gelfyddydol ac rwy'n teimlo'n angerddol amdano. O ran ysgrifennu, rwy'n hoff iawn o *genre* ias a chyffro ac rwy'n ysgrifennu straeon byrion a naratifau am fy mhrofiadau yn yr ysgol a fy amser rhydd hefyd. Rwy wrth fy modd yn canu. Mae gen i ymroddiad i fy ngwaith cymdeithasol hefyd. Rwy'n ceisio creu ymwybyddiaeth gymdeithasol mewn unrhyw fordd y gallaf ac rwy'n helpu pobl sy'n llai breintiedig na fi gymaint â phosib. Rwy'n teimlo ei bod yn gyfrifoldeb arnaf i helpu rhai sydd mewn angen. Mae'r ffaith fy mod i'n cael y cyfle yma i ddysgu gennych chi a chael platfform i archwilio fy nhalentau yn fraint ynddi ei hunan. Diolch yn fawr iawn i chi. Rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â chi'n fuan iawn!!

3. **ANTARA** - Rwy'n hoffi darllen a chanu a bod yn ddwl a chreu cysylltiadau gyda phobl. Y peth cyntaf rwy'n sylwi arno wrth edrych ar berson yw'r dwylo. Rwy'n dychmygu pa mor gymleth a hudolus yw pobl,

er bod rhai yn gallu bod yn wirioneddol ofnadwy. Un o fy hoff bethau yw chwarae'r gitâr wrth i'r haul wawrio.

4. **MEGHNA -** Rwy'n arbennig o hoff o'r theatr ac rwy wrth fy modd yn mynegi fy hun ar lwyfan. Rwy'n meddwl am y theatr fel rhyw fath o ddihangfa o fywyd bob dydd. Rwy ychydig bach yn fewnblyg, felly rwy'n ei ffeindio'n hi'n haws i fynegi fy hun pan rwy'n gwisgo esgidiau cymeriad arall. Dydw i ddim yn ddarllenwr mawr, ond rwy'n dwlu ar ysgrifennu. Dydw i ddim wedi rhannu llawer o fy ngwaith ysgrifennu gydag unrhyw un, ond roeddwn i'n meddwl y byddai'r gweithdy yma'n cynnig profiad da i fi a chyfle i fi rannu fy ysgrifennu gyda phobl sydd â diddordebau tebyg i fi. Mae fy niddordebau eraill yn cynnwys gwrando ar gerddoriaeth a chwarae offerynnau fel y gitâr a'r iwcalili.

5. **SOMOSHREE -** Rwy wrth fy modd yn darllen Llenyddiaeth y Rhyfel Mawr, achos rwy'n teimlo ei fod yn ysgrifennu sy'n dod o galon y bardd neu'r awdur. Rwy'n mwynhau darllen gweithiau Seigfrid Sassoon, Wilfred Owen a Rupert Brooke. Rwy wedi darllen gweithiau Lord Byron, Keates, Shelley, Browning a W.H.Auden ac rwy'n eu haddoli fel beirdd. Fe ddechreuais i ysgrifennu barddoniaeth pan roeddwn i'n wyth oed, a dyna pryd y gwnes i ddeall fod ysgrifennu yn ffordd o, wel, oroesi!

6. **VASUNDHARA PAUL -** Mae fy ffrindiau wedi fy ngalw'n hen ben ar ysgwyddau ifanc erioed, ac rwy wastad yn teimlo fy mod wedi cael fy ngeni yn y cyfnod anghywir. Rwy eisiau bod yn sgwennwr; rwy'n caru sgwennu a darllen, rwy'n dwlu ar weithiau Paulo Coelho a rhai nofelau dirgelwch seicolegol. Fel person mewnblyg, mae'n anodd i fi agor i bobl a lleisio fy meddyliau, felly rwy'n troi at sgwennu a llenyddiaeth sydd hefyd yn fath o ddihangfa i fi. Mae digwyddiadau yn fy mywyd wedi fy ngorfodi i dyfu'n gyflym a chario cyfrifoldebau o oedran ifanc felly mae plymio i ganol straeon ffuglen a cherddoriaeth dda yn fy helpu i ddianc rhag ergydion caled realiti.

7. **AMRITA -** Dim ond rhai blynyddoedd yn ôl y dechreuais i sgwennu. Rwy'n sgwennu'n bennaf am fy mhrofiadau, pethau rwy'n teimlo y dylai pobl eraill wybod, pethau o fy nghwmpas ac am natur. Rwy'n caru darllen ac i fi mae darllen a sgwennu yn cynnig lloches a gollyngfa. Er fy mod i braidd yn fewnblyg, rwy'n siwr nad yw hynny'n fy stopio rhag mynegi beth rwy'n ei deimlo neu beth rwyf am ei rannu. Dydw i ddim wedi bod mewn theatr ac fe fyddwn i wrth fy modd yn cael cyfle i'w drio. Hefyd, mae gen i ddiddordeb mawr mewn seicoleg a chydberthynas pobl. Fe fyddwn i'n hapus iawn i archwilio hynny ymhellach, ffocysu a bwrw golau ar bethau sydd angen ein sylw.

8. **MEGHABALAKA -** Rwy'n caru barddoniaeth haniaethol. Rwy'n hoffi rhannu cynnwrf pobl ac unrhyw beth sy'n cyffroi fy nheimladau i'r byw. Fy hoff waith celf yw 'Nighthawks' gan Edward Hopper. Rwy hefyd yn gobeithio y bydd y gweithdy yma'n cynnig atgofion am oes i fi.


9. **POULOMI -** Mae gen i ddiddordeb mawr yn y natur ddynol a'r rhesymau pam yr ydym ni'n gwneud y pethau rydym yn eu gwneud, yn ogystal â thueddiadau abswrd mewn celf a barddoniaeth. Dau air sy'n cyfleu pwy ydw i: rhamantydd sinigaidd. Rwy wedi bod yn sgwennu a rhwygo tudalennau'r sgwennu hwnnw ers pan oeddwn i'n un ar ddeg oed. Mae trosiad da neu ychydig o fwyd yn siwr o hoelio fy sylw.

10. **SOHAM –** Rwy'n caru ffilm yn angerddol. Rwy wedi mwynhau gwylio pob math o ffilmiau (o Hitchcock i Godard). Gan nad oes gen i afael cadarn ar lenyddiaeth rwy'n dueddol o droi at ffurfiau gweledol i fynegi fy hun (ee comics, ffilmiau byr ayb). Ond rwy'n dal i archwilio pwy ydw i ac mi fyddwn wrth fy modd yn cael cyfle i ddysgu crefft mynegi fy hunan drwy eiriau.

## Cyflwyniad Terfynol

Ar ôl iddyn nhw gwblhau’r tri gweithdy ac ysgrifennu eu straeon byrion unigol, bu Catherine yn helpu’r cyfranogwyr i baratoi’r gweithiau er mwyn eu cyflwyno i gynulleidfa. Cynhaliwyd y cyflwyniad yma yn y Victoria Memorial Hall, ddydd Iau 24 Ionawr 2019 fel rhan o **Gwrdd Llenyddol Iau Kolkata.** Roedd grŵp ysgol mawr ac aelodau o’r cyhoedd yn y gynulleidfa o dros 300 o bobl.





## Sylwadau gan gyfranogwyr y gweithdy

*Fe wnes i fwynhau'r gweithdai'n bendant. Rwy wedi mynychu tipyn o sesiynau ysgrifennu, ond fe gyflwynodd Catherine ymarferion gwirioneddol arloesol i ni a'n helpu i edrych o'r newydd ar ein creadigrwydd a'i gyfeirio mewn ffyrdd newydd a ffres. Fe ddysgais pa mor bwysig yw bod yn hyderus wrth ysgrifennu, ond hefyd i beidio anghofio meddwl yn gyson am sut y gallwn wella ein gwaith ysgrifennu.*

Poulomi, 18 oed

*Roeddwn i wrth fy modd. Roedd yr ymarferion sgwennu'n fendigedig ac fe wnaethom ni ffurfio tîm gwirioneddol agos yn ystod y 9 awr y buom ni gyda'n gilydd. Roedd y syniadau yn sicr yn dda yn ogystal â'r ffordd y gwnaeth Catherine ein helpu i'w datblygu a'u gwella. Rwy wedi dysgu mai nad bod yn berffaith yw'r nod bob tro ond yn hytrach, bod yn hyderus am beth bynnag rydym wedi ei gyflawni cyn belled. Mae safbwyntiau a barn wastad yn mynd i amrywio.*

Amrita, 16 oed

*Ble 'dw i'n dechrau? Mae'r holl beth yma mor newydd i fi ac eto rwy wastad wedi bod eisiau ysgrifennu a barddoni, ond rhywsut doeddwn i byth yn gallu gwneud. Mae'r gweithdy yma wedi fy helpu i agor fy nychymyg ac wedi fy nysgu i ymestyn a chyrraedd fy llawn botensial ac ysgrifennu gyda holl arddeliad fy nghalon. O! A dysgu "troi unrhyw gyfyngiadau yn fanteision" - mae hynny'n gyngor euraid, ac rwy'n mynd i'w roi ar waith ym mhob agwedd o fy mywyd.*

Soham, 18 years oed

*Fe ddysgais ddulliau defnyddiol i sbarduno sgwennu a fydd o help gwirioneddol i fi yn y dyfodol, ac fe ddysgais i lawer am lawer o bethau eraill am fyd y theatr nad oeddwn i'n eu gwybod o'r blaen. Roedd e'n cŵl.*

Roshni, 16 oed

*Fe ddysgais fod pethau'n ymddangos yn frawychus tan y foment yr ydych yn camu i mewn iddynt, ac nad oes angen gor-wneud wrth berfformio. Fe ddysgais hefyd bod llawer o bobl hyfryd yn y byd.*

Meghabalaka, 16 oed

*Erbyn heddiw mae Llenyddiaeth yn fwy tebyg i fasnach, ond gyda Catherine roedd rhyddid i ni ysgrifennu beth bynnag roeddem ni eisiau. Roedd yn deimlad unigryw achos roedd hi'n ein dysgu am sut i ysgrifennu ac nid beth i'w ysgrifennu. Fe ddysgon ni ffyrdd gwahanol i greu gweithiau anhygoel allan o ddim byd. Roeddwn i'n drist pan ddaeth hyn i ben heddiw achos wnes i erioed feddwl y byddwn i'n teimlo gymaint o agosatrwydd ar ôl dim ond 9 awr gyda'n gilydd!*

Somoshree, 16 oed




Gallwch wylio fideo byr sy'n dogfennu sylwadau rhai o'r cyfranogwyr ar ein tudalen Facebook a'n sianel YouTube.

Sylw a gafwyd;

https://wales.britishcouncil.org/en/about/press/welsh-theatre-language-and-literature-starring-kolkata-january


https://www.theatriolo.com/theatr-iolo-news/2019/1/7/news-to-whet-your-appetites-for-all-things-theatr-iolo-in-2019

https://www.walesartsreview.org/walesinkolkata-catherine-dyson/




Yn ystod y mis ysgrifenwyd 11 postiad am y prosiect yn Kolkata, gyda chyrhaeddiad o 3682 a 72 o nodau 'hoffi'. Yn ogystal fe wnaethom ni ychwanegu 36 o ffotograffau i albwm o luniau o Kolkata.

**Twitter** - Mae gyda ni gyfanswm o 4022 o ddilynwyr. Cafodd ein cyfrif 12,000 o argraffiadau a 78 o nodau 'hoffi' yn ystod y chwe diwrnod, sef cyfartaledd o 2k o argraffiadau a 6 ail-drydariad bob dydd. Y neges drydar fwyaf poblogaidd yn ystof y prosiect oedd y canlynol:




**Instagram** – Mae gyda ni gyfanswm o 996 o ddilynwyr. Pobl 24-44 oed yw'r grŵp oedran mwyaf poblogaidd; menywod yw 64% o'r grŵp hwnnw. Bu 6 postiad yn benodol am India,

ac fe dderbynodd y rheini 74 o nodau ‘hoffi’, gyda chyrhaeddiad o 1398, a 2006 o argraffiadau.







---

## Theatr Iolo, beth nesa…

Os hoffech wybod mwy am gamau nesaf Theatr Iolo, tarwch draw i’n gwefan www.theatriolo.com ac ymunwch â’n e-restr er mwyn cadw cyswllt a derbyn rhagor o wybodaeth am y prosiectau a’r cynyrchiadau sydd gyda ni ar y gweill.







d/o Chapter, Heol y Farchnad, Caerdydd CF5 1QE +44 29 20613782 hello@theatriolo.com www.theatriolo.com

@theatriolo /theatriolo theatriolo theatriolo

Mae Theatr Iolo yn derbyn grant refeniw blynyddol gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gynnal ein prif waith ac arian gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiectau ychwanegol.
Mae Theatr Iolo yn elusen gofrestredig ac rydym yn dibynnu ar gefnogaeth unigolion, cwmnïau, ymddiriedolaethau a sefydliadau sy'n cael cymhorthdal cyhoeddus er mwyn parhau i gyflwyno theatr o'r radd flaenaf i blant, pobl ifanc ac oedolion.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

BRITISH COUNCIL

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru